



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Gweithredu o ran Gwybodaeth a Chyngor

Rhagfyr 2016

Cynllun Gweithredu o ran Gwybodaeth a Chyngor - Cyflwyniad

Mae rôl bwysig i wasanaethau cynghori cryf ac integredig er mwyn hyrwyddo lles a ffyniant sy'n hanfodol wrth greu cymunedau cryf.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid i sefydlu rhwydwaith cynhwysfawr o ddarparwyr gwybodaeth a chynghori o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector erbyn 2026. Bydd y darparwyr hyn o safon benodol. Gan gydweithio, byddant yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth amrywiol, gan gynnwys atal problemau a chymorth mewn argyfwng. Mae'r rhain yn bwysig i unigolion, teuluoedd a chymdeithas yn gyffredinol.

Yn 2013 gwnaed nifer o argymhellion gan Adolygiad Gwasanaethau Cynghori Llywodraeth Cymru o wasanaethau'r trydydd sector a oedd yn ymwneud â chyfraith lles cymdeithasol. Cafodd y rhain eu rhannu yn ôl 3 thema gyffredinol:

- Cyllido, comisiynu a darparu gwasanaethau cynghori
- Datblygu fframwaith sicrwydd ansawdd ar gyfer gwybodaeth a chyngor
- Datblygu Rhwydweithiau Cynghori

Gwnaed cynnydd da o ran pob un o'r themâu hyn mewn partneriaeth â'r sector cynghori a rhanddeiliaid eraill.

Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar y camau ymarferol hynny y mae angen eu cymryd er mwyn gwneud cynnydd pellach tuag at gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer 2026. Cafodd ei datblygu gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â'r Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol a rhanddeiliaid eraill, a'r bwriad yw iddi fod yn ddogfen fyw.

Nid materion i Lywodraeth Cymru yn unig yw'r camau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn. Mae angen i'r sector wneud y defnydd gorau o'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael er mwyn darparu'r gwasanaethau gwybodaeth a chynghori gorau posibl ar gyfer pobl Cymru. Mae hynny'n golygu bod angen i bob rhanddeiliad (gan gynnwys darparwyr, cyllidwyr, cynllunwyr a gwneuthurwyr polisi) fabwysiadu dull strategol o weithredu. Mae angen iddynt adeiladu ar lwyddiannau'r gorffennol, dysgu o arferion gorau, a sicrhau manteision mesuradwy drwy gydweithio mewn partneriaeth.

Mae cyngor da yn hollbwysig er mwyn gwella bywydau pobl ac mae'n rhan hanfodol o weithredu ein Hamcanion Cydraddoldeb a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae gwybodaeth a chyngor yn gwneud cyfraniad sylweddol at wneud pobl yn fwy cyflogadwy, mynd i'r afael â phroblem allgau pobl yn ariannol, lleihau Tlodi Plant a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a chyfrannu at amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rwy'n edrych ymlaen at gael adroddiadau ar gynnydd o ran y camau a fydd yn darparu gwasanaethau cynghori integredig a fydd yn sicrhau manteision clir, gweladwy i bobl Cymru.



Carl Sargeant
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

Ymrwymiad: Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'r sector cyngori ac eraill i weithredu Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor Cymru a hyrwyddo diwylliant o wella ansawdd yn barhaus

Gweledigaeth: Caiff pob darparwr gwasanaeth a chyngor sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru eu hachredu i'r lefel briodol erbyn diwedd y cyfnod gweithredu dynodedig.

Camau gweithredu	Amserlenni	Prif gyfranwyr (dangosir y prif gyfrannwr mewn print trwm)	Meini prawf llwyddo a mesurau gwerthuso
<p>1. Llywodraeth Cymru i weithredu a helpu i gyflwyno'n raddol Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor Cymru ar gyfer darparwyr gwybodaeth a chyngor ar gyfraith Llesiant Cymdeithasol, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Cefnogaeth a hyfforddiant ar gyfer y sector gwybodaeth a chynghori ○ Codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd, darparwyr a chyllidwyr 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno'r Fframwaith yn raddol rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2020 • Y Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol i fonitro'r broses o gyflwyno'r Fframwaith bob 6 mis • Cylch archwilio bob 3 blynedd o hynny ymlaen 	<ul style="list-style-type: none"> • Llywodraeth Cymru • Eraill o fewn y sector cyhoeddus sy'n comisiynu gwasanaethau gwybodaeth a chynghori • Cyllidwyr eraill gwasanaethau cyngori • Perchnogion y Safon Ansawdd Cyngor • Darparwyr gwybodaeth a chyngor • Corff achredu Perchnogion y Safon • Y Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol 	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer/ cyfran y darparwyr gwybodaeth a chyngor ar lesiant cymdeithasol a achredir erbyn Mawrth 2020 i'r lefel briodol • Nifer Perchnogion y Safon Ansawdd Cyngor sy'n cynnig achredu cymesur, hwylus yn erbyn y Fframwaith • Bod cyllidwyr gwasanaethau cyngori yn cydnabod yn gyson bod sicrhau ansawdd yn gost referniw hanfodol • Nodi a rhannu enghreifftiau

Camau gweithredu	Amserlenni	Prif gyfranwyr (dangosir y prif gyfrannwr mewn print trwm)	Meini prawf llwyddo a mesurau gwerthuso
			<p>o arferion da drwy broses archwilio'r Fframwaith, gan gynnwys cymorth partneriaid</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bod yr holl wasanaethau gwybodaeth a chynghori a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu hachredu gan y Fframwaith o fewn 6 mis i ddyddiad y dyfarniad, ar ôl cyflwyno'r Fframwaith • Nifer/ cyfran y darparwyr gwybodaeth a chyngor sy'n cyfrannu at welliant parhaus drwy rannu a helpu partneriaid yn unol â'r arferion gorau • Cyfran y bobl a all gael gafael ar y gwasanaethau cynghori sydd eu hangen arnynt (Arolwg Cenedlaethol Cymru)

Camau gweithredu	Amserlenni	Prif gyfranwyr (dangosir y prif gyfrannwr mewn print trwm)	Meini prawf llwyddo a mesurau gwerthuso
<p>2. Annog cyllidwyr eraill gwasanaethau cynghori i gydnabod a mabwysiadu Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor Cymru fel meini prawf asesu a dyfarnu.</p>	<p>Dechrau 17/18</p>	<p>Llywodraeth Cymru Y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol Cyllidwyr cyngor</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bod cyllidwyr eraill gwasanaethau cynghori, gan gynnwys cyllidwyr eraill o fewn y sector cyhoeddus, yn mabwysiadu'r Fframwaith fel meini prawf asesu a dyfarnu
<p>3. Llywodraeth Cymru i ymchwilio, ynghyd â'i phartneriaid, i sefydlu gwasanaeth cymorth arbenigol ail haen ar gyfer darparwyr a gaiff eu hachredu gan Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor Cymru, i gynnwys os yw'n briodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hyfforddiant i fod yn gynghorydd achrededig, fel rhan o DPP • Cyngor dros y ffôn ar achosion cymhleth • Cynrychiolaeth uniongyrchol ar gyfer achosion prawf • Papurau tystiolaeth achlysurol mewn perthynas â pholisi 	<p>Ymchwilio i wasanaeth cymorth ail haen yn ystod 2018/19</p>	<p>Llywodraeth Cymru Y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol Darparwyr Cyngor Arbenigol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer y sefydliadau sy'n defnyddio cymorth ail haen • Yr hyfforddiant achrededig a ddarperir ac a ddilynir, fel rhan o DPP • Lefelau boddhad â'r gwasanaethau a gynigir • Dogfen polisi cyflwynwyd gan wasanaeth cynnal ail haen • Canlyniadau ac effeithiau achosion prawf

Camau gweithredu	Amserlenni	Prif gyfranwyr (dangosir y prif gyfrannwr mewn print trwm)	Meini prawf llwyddo a mesurau gwerthuso
4. Llywodraeth Cymru i ymchwilio i gyfleoedd i addasu ac ehangu Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor Cymru i gynnwys yr amrywiaeth eang o wasanaethau gwybodaeth a chynghori.	Erbyn 19/20	Llywodraeth Cymru	<ul style="list-style-type: none"> • Bod yr amrywiaeth eang o wasanaethau gwybodaeth a chynghori yn mabwysiadu egwyddorion y Fframwaith
5. Llywodraeth Cymru i barhau i oruchwyllo Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor Cymru yn strategol.	Yn flynyddol	Llywodraeth Cymru	<ul style="list-style-type: none"> • Adroddiadau blynyddol ar arferion gorau • Diwygiadau i'r Fframwaith
6. Cydweithio â/ neu hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu rhwydweithiau lleol/rhanbarthol	2018 ymlaen	Llywodraeth Cymru Llywodraeth Leol Darparwyr cyngor a gwybodaeth lleol Rhanddeiliaid ehangach	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer neu gyfran y rhwydweithiau lleol/rhanbarthol sy'n dangos eu bod yn rhwydweithio'n effeithiol, gan sicrhau nad yw'r un drws yn ddrws anghywir

Ymrwymiad: Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau gwybodaeth a chynghori yn cael eu cynllunio'n strategol a'u cyflwyno'n effeithiol mewn partneriaeth â'r sector cynghori a rhanddeiliaid ehangach

Gweledigaeth: Bod gwasanaethau gwybodaeth a chynghori ar gael i bawb yng Nghymru fel y gallant osgoi argyfyngau a gwybod beth i'w wneud pan fydd argyfyngau yn codi.

Camau gweithredu	Amserlenni	Prif gyfranwyr (dangosir y prif gyfrannwr mewn print trwm)	Meini prawf llwyddo a mesurau gwerthuso
7. Y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol i lunio a rhannu papur negeseuon allweddol	<ul style="list-style-type: none"> Papur negeseuon allweddol erbyn Mawrth 2017 	Y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol	<ul style="list-style-type: none"> Cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith darparwyr a chyllidwyr o gyfraniad y sector cynghori
8. Y sector cynghori i geisio gweithio gyda <ul style="list-style-type: none"> Byrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus lle nodwyd bod cyngor a chymorth yn flaenoriaeth Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i sicrhau bod y cyngor ehangach a gynigir yn gydnaws â Chynlluniau Ardal a gaiff eu llunio o dan 	<ul style="list-style-type: none"> Gwaith treialu Byrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus/ Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol 16/17 – gweithredu o 17/18 ymlaen 	Y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol Llywodraeth Cymru Byrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus Sector Cynghori'r Byrddau Partneriaeth Yr Adran Gwaith a Phensiynau CLILC Llywodraeth Leol Y sector iechyd	<ul style="list-style-type: none"> Nifer neu gyfran Byrddau Partneriaeth y sector cyhoeddus sy'n rhoi ystyriaeth i ddadansoddi anghenion a dulliau o atal problemau mewn cynlluniau ardal fel yr uchod

Camau gweithredu	Amserlenni	Prif gyfranwyr (dangosir y prif gyfrannwr mewn print trwm)	Meini prawf llwyddo a mesurau gwerthuso
Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014		Rhanddeiliaid ehangach	
9. Gwella profiad defnyddwyr gwasanaethau drwy gael gwared â rhwystrau a sicrhau bod modd cynnwys pob grŵp, gan gynnwys grwpiau lleiafrifol, wrth ymgysylltu.	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu hyn erbyn 19/20 	Y Sector Cyngori Darparwyr gwasanaeth ehangach Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus	<ul style="list-style-type: none"> Mesur dangosydd Arolwg Cenedlaethol Cymru / Cenedlaethau'r Dyfodol o'r bobl sy'n fodlon â pha mor hawdd yw hi iddynt ddefnyddio'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt Enghreifftiau o arferion da a rennir drwy Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor Cymru
10. Mynd ati i symud y pwyslais, dros amser, o gymorth mewn argyfwng i atal argyfwng rhag codi	20/21	Llywodraeth Cymru Rhanddeiliaid eraill	<ul style="list-style-type: none"> Cyfran y rhaglenni newydd sy'n cynnwys cymorth i atal argyfwng a/neu gymorth mewn argyfwng

Camau gweithredu	Amserlenni	Prif gyfranwyr (dangosir y prif gyfrannwr mewn print trwm)	Meini prawf llwyddo a mesurau gwerthuso
<p>11. Llywodraeth Cymru i annog darparwyr gwybodaeth a chyngor i greu a chynnal eu cofnodion ar borthol Dewis fel y gall</p> <ul style="list-style-type: none"> • Unigolion ddod o hyd i'r cymorth sydd ei angen arnynt • Darparwyr a rhanddeiliaid eraill wneud atgyfeiriadau effeithiol • Cyllidwyr a chomisiynwyr weld yn glir pa wasanaethau sydd ar gael yn lleol ac yn genedlaethol er mwyn helpu'r broses o gynllunio gwasanaethau 	<p>Cyhoeddi map yn 2016 a'i gynnal/hyrwyddo o hynny ymlaen</p>	<p>Llywodraeth Cymru Darparwyr Cyngor</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer/ cyfran y gwasanaethau gwybodaeth a chynghori lleol sy'n ymddangos ar y map ar-lein • Cynyddu'r defnydd o'r porthol i nodi darparwyr gwybodaeth a chyngor
<p>12. Llywodraeth Cymru i gyhoeddi dadansoddiad o'r anghenion o ran cyngor</p>	<p>Cyhoeddi dadansoddiad o'r anghenion Mawrth 2017 a'i gynnal/hyrwyddo o hynny ymlaen</p>	<p>Llywodraeth Cymru Cyllidwyr eraill Rhwydweithiau lleol/rhanbarthol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bod dadansoddiad o'r anghenion cyngor yn cael eu cyhoeddi erbyn diwedd Mawrth 2017 • Bod dadansoddiad o'r anghenion cyngor yn cael ei gyfeirnoddi a'i ddiweddarau fel rhan o'r prosesau comisiynu a fydd yn dilyn

Camau gweithredu	Amserlenni	Prif gyfranwyr (dangosir y prif gyfrannwr mewn print trwm)	Meini prawf llwyddo a mesurau gwerthuso
13. Y Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol i gyfleu'r pryderon i wneuthurwyr polisi ar sail y dystiolaeth	Grŵp gweithgor i'w cael ei sefydlu i edrych ar y camau ymarferol 2017/18	Rhwydweithiau lleol a rhanbarthol Darparwyr cyngor Y Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol	<ul style="list-style-type: none"> Newidiadau polisi yn sgil rhannu pryderon gyda'r Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol
14. Y Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol i fonitro'r hyn a gyflawnir o ran y cynllun gweithredu a rhoi adroddiad i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ar y blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg	Blynyddol bob Ebrill	Y Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol	<ul style="list-style-type: none"> Adroddiad Blynyddol i Ysgrifennydd y Cabinet

Ymrwymiad: Bydd Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu dull strategol o gyllido gwasanaethau gwybodaeth a chynghori o safon a bydd yn annog sefydliadau partner i wneud yr un fath.

Gweledigaeth: Bydd y rheini sy'n cyllido gwybodaeth a chynghori ar hyn o bryd a'r rheini a allai ddechrau gwneud hynny yn cefnogi gwasanaethau sydd o safon benodol, sy'n cau'r bwlch rhwng yr angen a'r hyn sydd ar gael, gan gyfeirio at flaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

Camau gweithredu	Amserlenni	Prif gyfranwyr (dangosir y prif gyfrannwr mewn print trwm)	Meini prawf llwyddo a mesurau gwerthuso
<p>15. Llywodraeth Cymru i edrych ar bosibilrwydd creu canolfan gyngor ariannol er mwyn hybu dull cyson a strategol o gyllido gwybodaeth a chyngor, ar sail egwyddorion y cytunwyd arnynt sy'n cefnogi cyllidwyr a chyrrff darparu cenedlaethol a lleol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Canolfan gyngor ariannol – bwriad i'w datblygu yn 17/18 	<ul style="list-style-type: none"> • Llywodraeth Cymru – gwasanaethau cyngori uniongyrchol • Llywodraeth Cymru – gwasanaethau cyngori anuniongyrchol • Cyllidwyr eraill (sector cyhoeddus) • Cyllidwyr eraill gwasanaethau cyngori a darpar-gyllidwyr • Eiriolwyr gwell comisiynu nad ydynt yn cynnig cyllid (pobl sy'n dylanwadu ar bolisi) 	<ul style="list-style-type: none"> • Sefydlu canolfan gyngor ariannol os wy'n briodol • Bod y ganolfan gyngor ariannol yn cael ei defnyddio gan amrywiol gomisiynwyr a gwneuthurwyr polisi cyngor • Bod cyllidwyr a gwneuthurwyr polisi yn mabwysiadu meini prawf asesu cyson • Bod darparwyr gwybodaeth a chyngor yn nodi gostyngiad yn y baich gweinyddol • Bod bylchau cyllid yn cael eu llenwi (rhwng yr angen a'r hyn a ddarperir) • Bod cyllid newydd neu ychwanegol yn dod i'r amlwg

Camau gweithredu	Amserlenni	Prif gyfranwyr (dangosir y prif gyfrannwr mewn print trwm)	Meini prawf llwyddo a mesurau gwerthuso
<p>16. Llywodraeth Cymru i integreiddio'r gwasanaeth cynghori a ariennir (gan gynnwys y rheini a ddarperir ar hyn o bryd drwy Cyngor Da: Byw'n Well, Shared Outcomes a grant y Gwasanaethau Cynghori Rheng Flaen)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaglen SWL symlach o fis Ebrill 2018 • Integreiddio ymhellach y ddarpariaeth a gyllidir gan Lywodraeth Cymru o hynny ymlaen. 	<ul style="list-style-type: none"> • Llywodraeth Cymru • Canolfan gyngor ariannol 	<ul style="list-style-type: none"> • Bod Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'r ganolfan gyngor ariannol i ddiwygio'r rhaglenni presennol neu raglenni newydd sy'n darparu gwybodaeth neu gyngor neu a allai gynyddu'r galw am y gwasanaethau hyn
<p>17. Llywodraeth Cymru a'r Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol i annog comisiynwyr a chyllidwyr eraill i fabwysiadu'r un dull gweithredu</p>	<p>2017 - 2021</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Llywodraeth Cymru a'r Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol • Fforwm Cyllidwyr Cymru • Llywodraeth Leol • Byrddau Iechyd Lleol • Cyllidwyr eraill 	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer neu gyfran y cyllidwyr a'r comisiynwyr sy'n gweithio gyda'r ganolfan gyngor ariannol

Camau gweithredu	Amserlenni	Prif gyfranwyr (dangosir y prif gyfrannwr mewn print trwm)	Meini prawf llwyddo a mesurau gwerthuso
18. Cyllidwyr a chomisiynwyr gwybodaeth a chyngor i gefnogi cymysgedd o fesurau atal problemau a chymorth mewn argyfwng ar sail angen	2017-21	<ul style="list-style-type: none"> • Llywodraeth Cymru a'r Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol • Fforwm Cyllidwyr Cymru • Darparwyr gwybodaeth a chyngor a grwpiau cynrychioli 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfran y rhaglenni newydd sy'n cynnwys cymorth i atal problemau a/neu gymorth mewn argyfwng • Nifer neu gyfran y rhaglenni sy'n rhoi sylw i lesiant a chenedlaethau'r dyfodol yn eu gwasanaethau
19. Y Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol i asesu hyd a lled mwy o waith ar fesurau posibl eraill o ran canlyniadau a rennir	Canlyniadau a rennir – amserlen 3 i 4 blynedd	Y Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol	Datblygu a mabwysiadu mesurau yn ymwneud â chanlyniadau erbyn 2021